

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Castell-nedd Port Talbot i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Castell-nedd Port Talbot bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Castell-nedd Port Talbot 6 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 2.

Mae gwasanaethau llyfrgell yng Nghastell-nedd Port Talbot yn parhau i gael eu darparu'n effeithiol yn 2019/20. Mae'r adolygiad o wasanaethau llyfrgell a nodwyd yn 2018/19 bellach wedi cael ei gynnal, a dylai'r ymrwymadau a gyflawnwyd drwy'r broses hon sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgelloedd yn parhau i ddarparu gwasanaeth gwell a chynaliadwy i bobl Castell-nedd Port Talbot dros y pum mlynedd nesaf. Mae gan y llyfrgell newydd sy'n cael ei datblygu ar gyfer Castell-nedd fel rhan o'r gwaith o adfywio canol trefi y potensial i roi bywyd newydd i wasanaethau llyfrgell. Mae pwyslais parhaus ar ddatblygu tîm proffesiynol cryf sy'n gallu rhoi cyngor a chymorth i lyfrgelloedd cymunedol. Er nad yw llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned wedi'u cynnwys yn yr adroddiad blynyddol, mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn parhau i ddarparu lefel uchel o gymorth i'r llyfrgelloedd hyn a'u holl ddefnyddwyr. Er bod pwysau cyllidebol yn dal i fodoli, a bod nifer y defnyddwyr wedi gostwng mewn sawl maes, mae cryfder yr arweinyddiaeth, ochr yn ochr ag ymrwymiad clir gan y Cyngor i gefnogi'r weledigaeth newydd ar gyfer llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot, yn galonogol o ran datblygu llyfrgelloedd yng Nghastell-nedd Port Talbot dros y pum mlynedd nesaf.

- Mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn.
- Mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn parhau'n uchel.
- Er bod gostyngiad cyffredinol wedi bod yn y rhan fwyaf o'r meysydd defnyddio, mae cyfanswm yr aelodau o lyfrgell wedi cynyddu ychydig ac mae nifer yr aelodau fesul pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif yng Nghymru.
- Ymatebodd y gwasanaeth i bryderon blaenorol ynglŷn â lefelau gwariant, yn enwedig gwariant ar stoc Gymraeg ac ar gyfer plant, ac mae'n cyflawni'r targedau deunyddiau Gymraeg.
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer darpariaeth TGCh, gan gynnwys Wi-Fi, ac mae wedi buddsoddi mewn darpariaeth yn llyfrgell Sgiwen sydd wedi'i hadleoli.
- Ni welwyd unrhyw newid o ran nifer cyffredinol y staff, a nifer y staff cymwysedig, ac yn anffodus nid yw'r targedau'n cael eu cyflawni. Er hyn, mae safon y gofal i gwsmeriaid yn parhau'n uchel iawn.

- Nid yw'r oriau agor cyfanredol wedi newid, ac maent yn is na'r targed, fel chwe gwasanaeth arall. Er hyn, mae'n parhau i gyflawni'r targed lleoliad.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

2.1 Hawliau craidd

Mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn. Mae'r gwasanaeth wedi darparu ymateb ystyriol a chynhwysfawr, ac mae adleoli/adnewyddu llyfrgell Sgiwen wedi gwella'r ddarpariaeth TG. Mae hyn hefyd wedi arwain at well darpariaeth mewn cysylltiad â digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol yn Sgiwen. Darperir ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau ar draws llyfrgelloedd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gwelwyd gwelliant hefyd yn y gwariant ar adnoddau Cymraeg, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar HG 8. Mae'r gwasanaeth yn parhau i arwain consortiwm prynu Cymru gyfan ar gyfer e-adnoddau.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu cefnogaeth helaeth i'r 7 Llyfrgell a Reolir gan y Gymuned, ond oherwydd y canllawiau ynglŷn â chynnwys llyfrgelloedd o'r fath yn y datganiad blynyddol nid ydynt wedi'u cynnwys yma. Gallai hyn effeithio ar berfformiad, er enghraifft mae gwariant ar ddeunyddiau'n cynnwys stoc a ddefnyddir gan lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned, ond nid yw benthyciadau gan lyfrgelloedd o'r fath yn cael eu cynnwys.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Castell-nedd Port Talbot yn cyflawni 6 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 2 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	x	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

Mae Castell-nedd Port Talbot wedi cynnal ei berfformiad, ac nid oes newid arwyddocaol drwy gydol y fframwaith.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Castell-nedd Port Talbot ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Chwefror 2019, a chafodd ganlyniadau cadarnhaol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	97%	=1/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	95%	=2/19	41%	85%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Castell-nedd Port Talbot bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Y Llyfrgell i'r teulu – rôl y llyfrgell wrth gefnogi'r teulu. Disgrifir effaith y llyfrgell ar deulu, gan amrywio o sesiynau rhigwm a chân i'r plant i le tawel i astudio ar gyfer arholiadau i dad, a man lle gall pawb gael mynediad at gyfrifiaduron personol. Mae teulu wedi elwa o ddefnyddio'r llyfrgell mewn nifer o ffyrdd. Dangosir pwysigrwydd y llyfrgell i'r gymuned.
- Chwilio am waith – effaith y llyfrgell ar bobl ddi-waith. Mae'r llyfrgell yn rhan allweddol o fywyd bob dydd un unigolyn. Mae wedi galluogi'r unigolyn i gyfarfod pobl eraill sydd mewn sefyllfa debyg; lleihau'r teimlad o fod yn ynysig a gwella iechyd meddwl.
- Bookstart – manteision y sesiynau Bookstart. Mae sesiynau Bookstart yn y llyfrgell wedi bod yn amhrisiadwy i un fam ac wedi rhoi cyfle iddi gyfarfod mamau eraill a dysgu gweithgareddau newydd i'w gwneud gyda'i mab. Mae'r sesiynau wedi darparu syniadau ar gyfer gweithgareddau teuluol yn y cartref ac wedi meithrin hyder drwy ryngweithio cymdeithasol.
- Gwella ar ôl anhwylder straen wedi trawma (PTSD) – effaith y llyfrgell ar y teimlad o fod yn ynysig ac yn unig. Mae'r llyfrgell wedi helpu un oedolyn, a oedd wedi cael llawer o brofedigaethau, i fynd i'r afael â theimladau o allgáu cymdeithasol. Mae staff y llyfrgell wedi darparu cyswllt cymdeithasol gwerthfawr i'r unigolyn hwn ac mae'r adnoddau hanes teulu sydd ar gael yn y llyfrgell hefyd wedi cyfrannu at lesiant a bodlonrwydd yr unigolyn.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y manau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 6]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	90%	=4/18	25%	75%	94%	90%
c) iechyd a lles	87%	4/19	38%	69%	96%	87%
d) lle diogel a chroesawgar	97%	=7/19	90%	96%	100%	97%
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid					[Fframwaith 6]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	96%	3/18	78%	91%	99%	96%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=3/18	88%	97%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	91%	=5/17	65%	85%	99%	91%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	98%	=5/18	85%	96%	100%	98%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.3	=7/19	8.0	9.1	9.5	9.3
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	4,175	7/22	2429	3987	6874	4,428
b) rhith-ymweliadau fesul pen	703	13/22	239	909	2131	920
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	87	19/22	78	145	244	123
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen ²	356	19/22	311	680	1468	425
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	6	21/22	4	9	14	6
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	32%	6/22	14%	30%	64%	32%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£12,969	8/22	£7,260	£12,448	£23,333	£12,051
b) % ar staff	59%	=11/22	48%	61%	76%	63%
% ar adnoddau gwybodaeth	10%	=15/22	5%	13%	22%	13%
% ar offer ac adeiladau	3%	=15/22	0%	8%	28%	0.4%
% ar gostau gweithredol eraill	27%	7/22	1%	18%	35%	23.6%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0	=22/22	£0	£1,567	£13,027	£0
DA 16 – Oriau agor ³						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	1.54%	17/22	0.00%	1.07%	5.41%	1.92%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; ² fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)ⁱ

Cynhaliodd Castell-nedd Port Talbot ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Chwefror 2019, a chafodd ganlyniadau cadarnhaol. Mae pob llyfrgell sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a

llesiant. Caiff gweithio mewn partneriaeth ei nodi fel cryfder yng Nghastell-nedd Port Talbot, a chefnogir datblygiad unigol drwy ystod o hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol. Yn ychwanegol at hyn, cefnogir iechyd a llesiant mewn llawer o wahanol ffyrdd, drwy bartneriaethau â sefydliadau megis Macmillan a digwyddiadau ystyriol o ddementia a gynhelir yn Llyfrgell Port Talbot.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)ⁱⁱ

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, a darperir gwasanaethau hefyd drwy ei saith llyfrgell a reolir gan y gymuned (nad ydynt wedi'u cynnwys fel rhan o'r gwasanaeth statudol). Er bod gostyngiad cyffredinol wedi bod yn y rhan fwyaf o'r meysydd defnydd, mae cyfanswm yr aelodau o lyfrgell wedi cynyddu ychydig ac mae'r aelodau fesul pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif yng Nghymru. Gwelwyd gwell perfformiad hefyd mewn cysylltiad â nifer y lawrlwythiadau electronig, sydd wedi cynyddu 87% er 2017/18. Fel y nodwyd gan lawer o wasanaethau, mae presenoldeb Castell-nedd ar y cyfryngau cymdeithasol wedi parhau i dyfu, ac erbyn hyn mae'n well gan lawer o ddefnyddwyr ryngweithio drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol amrywiol.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱⁱⁱ

Mae'r gyllideb deunyddiau wedi codi 15.7% er 2017/18, a gwelwyd cynnydd o 5% yng nghanran y gwariant ar ddeunyddiau i blant, sy'n uwch na'r gwariant canolrifol yng Nghymru. Er hyn, mae'r targedau caffael ar gyfer DA 9 yn parhau heb eu cyflawni. Mae Castell-nedd Port Talbot yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Nodwyd yn 2018/19 bod gwariant ar adnoddau Cymraeg bedair gwaith yn fwy, yn dilyn cyfnod hir o fuddsoddiad isel. Mae hyn wedi'i gynnal yn 2019/20, â chynnydd bach mewn gwariant, ac mae DA 10 (adnoddau Cymraeg) wedi'i gyflawni. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron personol wedi cynyddu ac mae cyfleusterau wedi'u gwella o ganlyniad i'r llyfrgell newydd yn Sgiwen. Mae'r defnydd o TGCh yr un fath o hyd, ac mae'n uwch na'r canolrif yng Nghymru. Mae perfformiad mewn cysylltiad â chyflenwi ceisiadau wedi gostwng ychydig (yn rhannol o ganlyniad i'r dull cyfrifo a argymhellwyd) ond mae'r ddau darged yn parhau i gael eu cyflawni.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)^{iv}

Nid yw nifer cyffredinol y staff na nifer y staff cymwysedig wedi newid, er bod oriau cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng ychydig o ganlyniad i newidiadau gwirfoddol i gontractau. Fel y rhan fwyaf o'r awdurdodau llyfrgell eraill, nid yw Castell-nedd Port Talbot, yn cyflawni yr un o'r targedau staffio. Mae cyfanswm y staff cymwysedig am bob 10,000 o boblogaeth yn parhau yn uwch na'r canolrif yng Nghymru. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli o hyd.

Gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm y gwariant refeniw fesul 1,000 o'r boblogaeth yn 2019/20. Gellir priodoli hyn, yn rhannol, i gostau adleoli/adnewyddu Llyfrgell Sgiwen ac i'r costau sylweddol uwch am gyfleustodau eleni. Nid yw'r oriau agor cyfanredol wedi newid, ac maent yn parhau'n is na'r targed, fel mewn chwe gwasanaeth arall. Dylid nodi nad yw'r adroddiad yn cynnwys darpariaeth drwy lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Amlinellir gweledigaeth strategol Castell-nedd Port Talbot yn ei strategaeth llyfrgell 2016-2021. Mae'n cynnwys mynediad at wasanaethau ar-lein, dysgu a datblygu, iechyd a llesiant a llythrennedd. Mae datblygiadau yn y meysydd hyn yn gydnaws â'r blaenoriaethau corfforaethol a nodau llesiant cenedlaethol. Wrth i wasanaethau dod atynt eu hunain ar ôl Covid-19 bydd mwy o bwyslais ar wella gwasanaethau digidol i ddatblygu'r economi leol a'r amgylchedd er mwyn gwella llesiant pobl.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, amlinellodd Castell-nedd Port Talbot ganlyniadau'r adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth llyfrgell a gynhaliwyd yn 2019/20. Mae'r weledigaeth o ddarparu rhwydwaith cryf, cynaliadwy o lyfrgelloedd cyhoeddus, statudol ac yn cael eu rheoli gan y gymuned, ynghyd â llyfrgell ar-lein ddigidol sy'n addasu i anghenion defnyddwyr wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor. Bydd y blaenoriaethau uniongyrchol yn cynnwys datblygu llyfrgell newydd yng nghanol tref Castell-nedd, llyfrgell deithiol newydd, cerbyd newydd ar gyfer y gwasanaeth danfon i'r cartref, adleoli pencadlys y llyfrgell a phrosiect peilot i adolygu oriau agor. Gallai'r datblygiadau hyn ddarparu nifer o gyfleoedd i'r gwasanaeth ac maent yn galonogol yn yr hinsawdd sydd ohoni ac yn dangos cynllunio clir a thrylwyr. Bydd y gwasanaeth hefyd yn parhau i gyflawni nodau ac argymhellion ei Strategaeth Llyfrgell bresennol (2016-2021), a disgwylir y bydd Strategaeth newydd yn cael ei chyflwyno yn hydref 2021.

6 Casgliad

Mae gwasanaethau llyfrgell yng Nghastell-nedd Port Talbot yn parhau i gael eu darparu'n effeithiol yn 2019/20. Mae'r adolygiad o wasanaethau llyfrgell a nodwyd yn 2018/19 bellach wedi cael ei gynnal, a dylai'r ymrwymadau a gyflawnwyd drwy'r broses hon sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgelloedd yn parhau i ddarparu gwasanaeth gwell a chynaliadwy i bobl Castell-nedd Port Talbot dros y pum mlynedd nesaf. Mae gan y llyfrgell newydd sy'n cael ei datblygu ar gyfer Castell-nedd fel rhan o'r gwaith o adfywio canol trefi y potensial i roi bywyd newydd i wasanaethau llyfrgell. Mae pwyslais parhaus ar ddatblygu tîm proffesiynol cryf sy'n gallu rhoi cyngor a chymorth i lyfrgelloedd cymunedol. Er nad yw llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned wedi'u cynnwys yn yr adroddiad blynyddol, mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn parhau i ddarparu lefel uchel o gymorth i'r llyfrgelloedd hyn a'i holl ddefnyddwyr. Er bod pwysau cyllidebol yn dal i fodoli, a bod nifer y defnyddwyr wedi gostwng mewn sawl maes, mae cryfder yr arweinyddiaeth, ochr yn ochr ag ymrwymiad clir gan y Cyngor i gefnogi'r weledigaeth newydd ar gyfer llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot, yn galonogol o ran datblygu llyfrgelloedd yng Nghastell-nedd Port Talbot dros y pum mlynedd nesaf.

ⁱ Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

ⁱⁱ Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

-
- iii *Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.*
- iv *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.*